**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

01 Ebrill 2022

Annwyl Mark

Ymchwiliad cyhoeddus COVID-19 y DU: cylch gorchwyl drafft

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 19 Ionawr 2022, cadarnhaf fod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ystyried y cylch gorchwyl drafft ar gyfer Ymchwiliad COVID-19 y DU yn ein cyfarfod ar 24 Mawrth 2022, a chytunwyd i ysgrifennu at y Farwnes Hallet. Amgaeaf gopi o'r llythyr hwn, er gwybodaeth i chi.

Er bod safbwyntiau gwahanol o fewn y Pwyllgor ynghylch a ddylid hefyd sefydlu ymchwiliad cyhoeddus penodol i Gymru i'r modd yr ymdriniwyd â'r pandemig ai peidio, rydym serch hynny yn gytûn o ran ein disgwyliad clir y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n llawn ac yn agored ag Ymchwiliad y DU. Byddem yn croesawu cael eich sicrwydd ar y pwynt hwn.

Rydym hefyd yn gytûn ar bwysigrwydd tryloywder, o ran yr ymchwiliad ei hun, ac o ran ymgysylltiad Llywodraeth Cymru ag ef. I'r perwyl hwn, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a ydych yn rhagweld y bydd gan yr Ymchwiliad y pŵer i gyhoeddi ei adroddiad ei hun a'i adroddiadau interim, neu a fydd cyhoeddi yn fater i Lywodraeth y DU.

Yn gywir

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.